

FRÂN WEN

Cyngor Catholddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRU
WELSH

CONWY
CONVENTION

Y Ffôn
The Phone

Y Lolfa


HARLECH
HARLECH

PECYN
CREADIGOL

MWGS

www.franwen.com

CRYNODEB O'R DDRAMA



Drama am wynebu heriau aruthrol ydi Mwgsi.

Mae Mari yn awchu am hwyl dros yr haf wedi pwysau arholiadau Lefel A. Wedi trefnu gwyliau i Roeg mae'r criw ffrindiau yn cynllunio pob manylyn o'r dillad i'r diodydd i'r dynion ffit y bydd yn cadw 'cwmpeini' iddyn nhw.

Ond mae yna gwmwl dros y cwbl wrth i Mari sylweddoli nad yw popeth yn iawn. Mae'r blinder, y colli gwynt a'r cosi yn dod yn amlycach a daw difrifoldeb y sefyllfa i'r wyneb yn dilyn x-ray.

A hithau'n ddeunaw oed, ac yn oedolyn, mae'n rhaid iddi wynebu penderfyniadau tyngedfennol am ei dyfodol ar ei phen ei hun.

Mae'r rhwystredigaeth meddyliol yn ei harwain i gilio rhag rhannu ei theimladau hefo'i theulu a'i ffrindiau. Mae'r dynfa mewnol a ddaw yn wyneb yr unigrwydd hwn yn gyffredin i bob profiad tywyll a ddaw yn ystod taith bywyd.

Wrth geisio dilyn bywyd 'normal', tra'n dygymod hefo triniaeth gorfforol enbyd, caiff ei gyrru i eithafion emosiynol. Ond y 'normalrwydd' sy'n rhyddhau hiwmor a chynhesrwydd perthnasau ar eu gorau.

Wynebu profiadau sy'n gwrthio unigolion, teuluoedd a ffrindiau at y dibyn a geir yn Mwgsi.

Ond yn bennaf oll, cariad sy'n trechu, boed hynny mewn gwydr o rosé gan ddieithryn neu yng nghoflaid cadarn ffrind.

PAM MWGSI?

Roedd darllen blog Mwgsi yn ysgytwol. Gonestrwydd Megan nath y nharo fi gynta wrth iddi disgrifio ei phrofiad o ymdopi gyda chancr Hodgkin Lymphona teip 3B.

Roedd ei pharodrwydd i ddisgrifio ei rhwystredigaeth, ei thriniaeth a'i sgil effeithiau ynghyd â chariad a chefnogaeth ei theulu a'i ffrindiau yn wefreiddiol. Ond trwy'r cyfan mae asbri a hiwmor merch ifanc sydd am gael ei thrin yn 'normal'.

Roedd darllen ymateb ei mam hefyd yn rhoi golwg pellach ar sut yr effeithiodd y cancr y teulu cyfan gan eu gorfodi i gefnogi Megan wrth iddi ddelio â phenderfyniadau dirdynol ynglyn ag ymyriadau meddygol.

Wedi cael caniatâd Megan, a'i ffrind Gwenllian wnaeth ei chefnogi i ysgrifennu'r blog, penderfynwyd cael cyfnod o ymchwilio creadigol gyda Manon Steffan, Mirain Fflur a Catrin Mara i'r posiblwydd o greu cynhyrchiad theatrig. Roedd Megan yn awyddus i'r blog ysbrydoli syniadau yn hytrach na chofnodi ei phrofiadau yn llythrennol.

Mae'r cyfnod ymarfer wedi arwain at ymchwilio dwys o ran gwaith corfforol, delweddol, cerddorol ynghyd â gwaith sgript a diolch i bawb o'r tim artistig a chynhyrchu am eu hymroddiad, eu hegni a'u talent dibendraw. Maent oll wedi fy ysbrydoli i a fy argyhoeddi unwaith eto o rym theatr, yn arbennig yr egni a'r cynnwrf sy'n bodoli o fewn y celfyddydau yng Nghymru heddiw.

Gobeithio yn fwy na dim, bod Megan, ei theulu a'i ffrindiau yn gweld ein bod wedi bod yn driw a sensitif i brofiad dynes ifanc yn ymdopi â chancr.



CYFARWYDDWR ARTISTIG FRÂN WEN

YR AWDUR



Manon Steffan Ros
Awdur Mwgsi

Sut brofiad oedd ceisio dehongli a adrodd stori Megan?

Roedd 'na ddealltwriaeth o'r dechrau mai dim dweud stori Megan fyddai'r ddrama, ond sgwennu rhywbeth wedi ei ysbrydoli ganddi hi, felly doedd 'na ddim pwysau i fod yn ffeithiol gywir- ond eto, roeddwn i yn teimlo pwysau i gadw elfennau creiddiol o brofiad Megan yn y ddrama. Yn fwy na dim, ro'n i eisiau cynnwys y pethau bach annisgwyl, a'r ffaith fod y cymeriadau yn rhai real iawn, efo hiwmor a beiau ac anwyldeb.

Oedd na bwysa mwy na'r arfer oherwydd natur y pwnc a'r ffaith fod Megan yn rhan o'r broses?

Oedd, dwi'n meddwl - ond mae Megan yn ddynes mor hwyliog a does 'na ddim hunandosturi yn perthyn iddi. Mae gweithio efo hi wedi bod yn brofiad mor werthfawr i fi fel sgwennwr, achos ro'n i'n gweld fy hun yn tueddu tuag at y dramatig bob tro, ac wedyn yn sylweddoli fod Megan ddim fel yna - mae hi'n ymarferol ac yn onest. Achos hynny, mae'r ddrama'n llawer gwell, achos fod y sefyllfa'n teimlo fel rhywbeth fasa'n gallu digwydd i unrhyw un.

Mwy heriol na chreu ffuglen traddodiadol?

Yn sicr. Mae 'na gyfrifoldeb i fod yn ffyddlon i'r hyn dwi wedi ei ddysgu gan Megan. Ond mae'r math yma o gydweithio'n werthfawr iawn hefyd. Dwi heb sgwennu drama lwyfan ers hydoedd a dwi'n edrych ymlaen at glywed yr ymatebion.

Disgrifia'r her o 'sgwennu ar gyfer llwyfan o'i gymharu â 'sgwennu nofel?

Mae o'n hollol wahanol, a'r peth dwi'n ei gael yn anodd am sgwennu i theatr ydi ildio'r awenau i rywun arall - y cyfarwyddydd, yr actorion, y criw. Dim ond rhan o'r broses ydw i fel dramodydd, ac mae hynny'n gallu bod yn eitha' anodd. Ond gan 'mod i wedi dechrau 'ngyrfa fel actores efo Frân Wen, ro'n i'n teimlo mod i a lola, y cyfarwyddydd, yn dallt ein gilydd yn iawn, ac y byddai'r cyd-weithio yna'n gweithio. Ac mae o wedi gwneud! Dwi'n lwcus iawn, iawn i fod wedi gallu dychwelyd at y cwmni, achos maen nhw i gyd yn trin drama mewn ffordd sensitif ond heriol.

Beth nesa' i Manon Steffan Ros?

Nofel i blant, ac mae gen i gyfrol o'ngholofnau Golwg yn dod allan yn ystod taith Mwgsi hefyd. A, gobeithio, mwy o ddramâu yn y dyfodol!

Disgrifia' Mwgsi mewn un 'Tweet'?

Rhywun fel chi, yn union fatha chi, yn eistedd mewn syrjeri doctor, ac ma'r geiria'n dod i ffurfio wal o'i blaen hi.

① CYFANSODDI



Rhodri Williams
Cyfansoddwr Mwgsi

Dechreuais y broses o ddarganfod arddull gyfansoddi i'r prosiect drwy ddadansoddi'r hyn yr oedd y Cyfarwyddwr Artistig, Iola Ynry wedi siarad a mi ynglŷn ag ef yn y cyfarfod cyntaf.

Yn ffodus iawn, bu'r Cyfarwyddwr Artistig yn ymddiried yn fy arddull bersonol o gyfansoddi ac nid oedd hi'n awyddus i mi or-ddibynnu ar y traciau dros dro ('temp tracks') a yrrodd i mi yn gynharach. Roeddem ni'n dau yn awyddus i ddarganfod math o steil finimalaidd, dywyll, acwsmataidd fy hunain.

Buddiol iawn oedd ei disgrifiadau i mi o safbwynt naws gyffredinol y gerddoriaeth. Roedd y Cyfarwyddwr Artistig yn awyddus i mi gyfansoddi cerddoriaeth ailadroddus gan arbrofi gydag effeithiau sain megis synau trên sydd ar

y trac "Be There" gan UNKLE i rai o olygfeydd mwy difrifol y sgript.

Addasais a datblygais y syniad 'ailadroddus' hwn drwy ddefnyddio technegau estynedig gyda fiolinau, fiolas a soddgrwth i efelychu synau tebyg yn y trac mewn nifer o giwiau yn y ddrama.

Crëwyd y technegau estynedig drwy arbrofi â samplau Llinynnau Spitfire, 'PP017 EVO GRID 1'. Roeddwn eisoes yn arbrofi gydag offerynnau wedi'u gwrth-droi ('reverse') yn fy nghyfansoddiadau. Roedd hyn yn bennaf i adlewyrchu fod bywyd Mari'n dod i stop am gyfnod gyda newyddion y diagnosis.

Y MEDDYLFRYD TU ÔL I'R OFFERYNNAU

Defnyddiais balet o'r un offerynnau sef y piano, offerynnau llinynnol, gitars electrig a synthiau electronig fel sylfaen ar gyfer fy ngherddoriaeth ar gyfer y ddrama.

Roedd hyn yn benderfyniad cynnar iawn yn ystod y broses gyfansoddi. Y bwriad cyffredinol pennaf oedd sicrhau fod y gerddoriaeth i gyd yn perthyn ac yn cysylltu fel un naratif.

Penderfyniad cynnar oedd i gadw'r nifer o offerynnau symffonig heblaw llinynnau a piano yn isel yn fy nghyfansoddiadau.

Y meddylfryd tu ôl i hyn oedd bod defnydd gormodol o offerynnau symffonig ddim yn gweddu'n iawn i'r naratif ac yn or-ddramatig.

Roedd defnyddio offerynnau modern megis 'synths' electronig a gitars electrig yn uniaethu gyda'r ymdeimlad o ieuencid i'r cymeriadau yn ogystal â gweddu i gefndir y deialog yn well.

1 CYFANSODDI

GOLYGFA 4 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-4>]

Synopsis - "Mari'n ymweld â'r doctor a chael y deagnosis ei bod gyda Lymphoma."

I'r olygfa hon, Golygfa 4, penderfynais mai steil finimalaidd, ailadroddus fyddai'n gweddu orau i'r naratif. Roedd ysgrifennu'r gerddoriaeth mewn arddull finimalaidd yn golygu bod y Technegwr Sain, Daniel Jones, yn gallu cylchdroi'r riff gitâr (loop) neu unrhyw adran bwmpasol arall pe bai'r actorion yn syrthio tu ôl i'r gerddoriaeth yn ystod yr olygfa.

Ymgeisiais i wneud trefniant trac yr olygfa hon yn rhywbeth a oedd yn gynnil ond eto'n llawn emosiwn. Roedd hi'n hanfodol fod y gerddori-

aeth yn emosiynol, yn bennaf oherwydd fod y gynulleidfa'n dod i ddeall difrifoldeb y deagnosis yn ymateb Mari.

Penderfynais ddefnyddio 'synths' wedi'i thiwnio fymryn allan o diwn yn ystod yr olygfa. Roedd hyn yn helpu i werthu'r ymwybyddiaeth fod Mari mewn sioc yn ogystal â rhagarwyddo gwirionedd Haf; mai hi yw'r cancr.

Penderfynais ddefnyddio'r piano fel offeryn i arwain y cyfansoddiad gyda'r alaw ar ei phen ei hun ac yn amlwg. Roedd hyn, yn yr isymwybod, i fod i gynrychioli unigrwydd Mari'n derbyn y newyddion.

GOLYGFA 8 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-8>]

Synopsis - "Mari yn derbyn chemotherapi. Mae Greta'n cadw cwmpeini ac yn awgrymu i Mari ysgrifennu blog."

Penderfynais mai'r ffordd orau o fynegi'r olygfa hon oedd cyfansoddi cerddoriaeth agored a oedd yn rhedeg o dan y deialog bron yn ddjarwybod i'r gynulleidfa.

Mae'r olygfa hon yn rhyw fath o drobwynt i gymeriad Mari gan mai yma y mae hi'n dechrau dygymod a brwydro'n ôl.

Un agwedd yr oeddwn yn awyddus i'w bwysleisio oedd yr ymdeimlad fod Mari'n gweld fod ysgrifennu'r blog yn rhywbeth therapiwtig iddi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Roedd defnyddio synths trwchus yn helpu i gyfleu'r ymdeimlad o fodlondeb ynddi hi ei hun.

Roedd cynlluniau cynnar Jason Phillips, y Cynllunydd Taflunio yn fy ysbrydoli eisoes.

GOLYGFA 9 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-9>]

Synopsis - "Greta'n ymweld â Mari unwaith yn rhagor. Mari'n welw, yn fyr ei thymher ac angen llonydd oddi wrth Greta. Haf yn dod mewn yn herian Mari. Mari'n gofyn am lonydd gan y ddwy."

Ymgeisiais i wneud trefniant trac yr olygfa hon yn rhywbeth a oedd yn gynnil ond eto yn llawn tensiwn ac anodd i'w wrando arno.

Roeddwn yn awyddus i gryfhau'r naratif drwy wneud y gynulleidfa ymdeimlo yn yr hyn yr oedd Mari'n mynd drwyddo yn ystod yr olygfa. Penderfynais ysgrifennu 'riffs' gitâr mewn traw isel. I sicrhau perfformio'r 'riffs' bydd angen defnyddio llinyn gitâr fas ar y llinyn isel.

Penderfynais ysgrifennu nifer o rannau'r offerynnau'n trawsacennu yn erbyn ei gilydd. Bwriad hyn oedd cyfleu rhwystredigaeth Mari i'r gwrandawyr o orfod gwrandao ar Greta a Haf yn cystadlu am ei sylw tra mae hi'n sâl ac angen llonydd.

Penderfynais ddefnyddio techneg estynedig ar y fiolinau o chwarae wrth ymyl y bont. Bwriad hyn oedd gwneud i'r rhannau fiolinau efelychu'r ymdeimlad o fod yn ben ysgafn a sâl.

① CYFANSODDI

GOLYGFA 10 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-10>]

Synopsis - "Golygfa sydd wedi ei lleoli tu allan i glwb nos. Mari yn mwynhau'r noson ond nid yw Haf yn mwynhau ac mae'r sgwrs yn troi'n fwy tywyll a chas gyda Haf yn mynnu sbeithio Mari. Yn ystod y sgwrs mae Haf yn sylwi bod gwallt Mari'n dechrau dod allan fel sgîl effaith y driniaeth, gan chwerthin ar ei phen."

Penderfynais mai'r ffordd orau o fynegi tensiwn i'r olygfa hon oedd i ysgrifennu cerddoriaeth wedi ei ysbrydoli gan dechneg effeithiol a ddefnyddir gan gyfansoddwyr byd enwog yn eu cyfansoddiadau sef glissando Sheperd-Riset, techneg sydd wedi'i enwi ar ôl Roger Shepard. Mae'r dechneg hon yn cael ei defnyddio i ychwanegu tensiwn i'r olygfa yn ogystal â sicrhau fod y gerddoriaeth yn aros yn ddiddorol er nad ydyw'n newid tŷn neu gord am gyfnod hir o amser.

Mae'r glissando Sheperd-Riset yn rhoi'r argraff fod yr alaw yn codi ond yn hytrach mae'n ailadrodd yr un nodau drosodd a throsodd.

Gwelir yr effaith yn cael ei egluro'n fanylach yn y fideo - "The sound illusion that makes Dunkirk so intense" ar "youtube" sydd yn edrych ar yr effaith yng ngerddoriaeth y cyfansoddwr Hans Zimmer.

Un agwedd yr oedd angen i mi gadw mewn golwg wrth gyfansoddi'r gerddoriaeth i'r olygfa hon oedd bod cerddoriaeth dawns yn bresennol ar y dechrau. Penderfynais o ganlyniad i hyn gyfansoddi cerddoriaeth atmosfferig gan ddatblygu a dwysau o safbwynt agwedd gerddorol wrth i'r gwrthdaro rhwng y ddau gymeriad gynyddu'n araf deg.

I sicrhau nad oeddwn yn tynnu sylw oddi wrth y deialog penderfynais ganolbwyntio ar yr harmonïau a'r gwead yn hytrach na rhythmau cymhleth a melodïau cadarn.

GOLYGFA 11 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-11>]

Synopsis - "Mrs Edwards yn 'torri' gwallt Mari (nid ydyw i'w gweld ar y llwyfan). Mae Greta ac Haf yno'n cefnogi. Haf yn pesychu ar ddiwedd yr olygfa."

Un agwedd oedd angen i mi gadw mewn golwg ar gyfer yr olygfa hon oedd cadw'r ymdeimlad o ddiniweidrwydd sydd yn perthyn i gymeriad Mari. Roedd ysgrifennu alaw syml i'r piano'n helpu i mi gyfleu ei natur-fregus, gobeithiol a dewr.

Gyda'r gerddoriaeth yn y golygfeydd cynt yn adlewyrchu fod bywyd Mari'n dod i stop am gyfnod mae'r alaw hon yn ymgeisio i frwydro ymlaen o afael Haf. Ymgeisiais wneud trac Golygfa 11 yn ymateb isymwybodol i trac Golygfa 9.

Roedd nifer o alawon a 'riffs' yng Ngolygfa 9 yn trawsacennu a chystadlu yn erbyn ei gilydd am sylw'r gwrandawyr i gyfleu rhwystredigaeth Mari. Penderfynais wneud y gwrthwyneb gyda'r gitarau trydanol yn bell yn y cefndir ac allan o ffordd yr alaw ond eto dal yno'n llercian fel Haf (yr afiechyd0).

Penderfynais eisoes beidio cynnwys offerynnau gwrth-droi ('reverse') yn yr olygfa.

Yn yr isymwybod roedd hyn yn helpu i wrthgyferbynnu'r golygfeydd blaenorol yn ogystal â chyfleu bod golau ar ddiwedd y twnnel i Mari bellach.

① CYFANSODDI

GOLYGFA 12 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-12>]

Synopsis - "Mari yn sefyll o flaen y drych, ac mae ganddi gwpwl o wigiau. Haf yn ofnadwy o welw. Trafodaeth yn dwysau'n sydyn ac mae gwrthdaro. Mari yn erfyn ar Haf i ymadael."

Penderfynais mai'r ffordd orau o fynegi tensiwn i'r olygfa hon oedd cyfansoddi cerddoriaeth lle nad oedd amseriad a churiad penodol yn perthyn iddi.

Un agwedd yr oeddwn yn awyddus i'w phwysleisio oedd yr ymdeimlad o ansicrwydd ynglŷn â chymeriad Haf i'r gynulleidfa. Roedd ddefnyddio'r fiolín yn mynd a dod ar hap heb guriad penodol gyda'r dechneg 'sul tasto' yn helpu i gynrychioli natur Haf yn effeithiol... cyfrwys, cas ac anrhagweladwy.

I gynrychioli'r ymdeimlad mai Haf sydd bellach yn sâl roeddwn yn awyddus i'r trefniant fod yn fwy cynnil ar y dechrau i gymharu â cherddoriaeth Golygfa 10. Roedd hyn, yn yr isymwybod i fod i gynrychioli fod gafael Haf ar

Mari'n llacio. Penderfynais ddatblygu a dwysau o safbwynt agwedd gerddorol wrth i'r gwrthdaro rhwng y ddwy gynyddu'n araf deg.

Ymgeisiais i wneud y tensiwn yn yr olygfa hon yn rhywbeth a oedd yn gynnwl ar y dechrau ond eto yn llawn elfennau anodd i'w wrando arno erbyn y diwedd. Penderfynais ail gyflwyno'r elfennau a oedd yn cynrychioli Haf yn y ddrama megis gitâr electrig yn ailadrodd riff isel ac ail ddefnyddio technegau estynedig ar y fiolinau megis chwarae wrth ymyl pont yr offeryn.

Anelais fod uchafbwynt y gerddoriaeth yn cyrraedd pan fo Mari'n erfyn ar Haf i ymadael.

Tuag at ddiwedd y gerddoriaeth penderfynais ddefnyddio'r llinynnau'n tawelu'n llwyr gyda diminuendo i gynrychioli Haf yn ymadael o gorff Mari.

GOLYGFA 13 [Linc i'r trac: <https://soundcloud.com/franwen/golygfa-13>]

Synopsis - "Greta'n sôn wrth Mari fod y BBC eisiau trefnu cyfweiliad gyda hi."

I'r olygfa hon, Golygfa 13, penderfynais fynd gwbl i'r gwrthwyneb yn arddull y gerddoriaeth gan ddefnyddio'r un palet o'r un offerynnau. Gwyddwn, ar ôl gwrandao ar gerddoriaeth y cynhyrchiad drwyddi draw, fod perygl i'r gerddoriaeth fod yn rhy bryderus a chaled i'r gwrandawyr pe bai dim math o ryddhad iddynt ar y diwedd.

I sicrhau fod y gerddoriaeth i gyd yn perthyn ac yn cysylltu fel un naratif penderfynais ddefnyddio nifer o'r un synths ac offerynnau yn yr olygfa ond wedi'u meddalu drwy arbrofi gyda effeithiau sain megis EQ.

Penderfynais ddefnyddio'r piano fel offeryn i arwain y cyfansoddiad fel y gwnes yng ngherddoriaeth Golygfa 11. Yn wahanol y tro hyn penderfynais leoli'r alaw o fewn blociau cordiau.

Yng Ngolygfa 11 roedd yr alaw ar ei phen ei hun ac yn amlwg. Roedd hyn, yn yr isymwybod, i fod i gynrychioli unigrwydd Mari'n gorfod ymdopi gyda torri'i gwallt.

Bellach, gyda Mari yn glir o'r afiechyd a bywyd sbyty ymhell i ffwrdd, mae ryw fath o normalrwydd yn dychwelyd i'w bywyd wrth iddi deimlo ei bod fel pawb arall.

2 GOLEUO



Ceri James

Cynllunydd Goleuo Mwgsi

Mae rôl y Cynllunydd Goleuo mewn cynhyrchiad theatr fel rôl golygydd neu artist yn peintio ar ganfas.

Mae gweledigaeth y cynllunydd yn cynorthwyo i atgyfnerthu y delweddau a welwn ar y llwyfan gan gyfeirio sylw'r gynulleidfa drwy olau a chysgod a chefnogi cyd-destun y naratif drwy fanipiweleiddio lliwiau, siâp a ffurf. Mae'r cynllunydd yn cyfrannu at gyfansoddiad gweledol y llwyfan drwy greu gofodau tywyll a golau.



Mae hefyd yn dylanwadu ar rhythm y ddrama gan droi tudalen yn frysiog i'r foment nesaf neu ar gyflymder fwy ystyriol, yn aml wrth gynnig ennyn o seibiant i ystyried beth sydd newydd ddigwydd, neu weithiau drwy gynnig diwedd i olygfa neu'r ddrama gyfan.

Mae'r uchod i gyd yn bosib, ond nid ar ei ben ei hun. Theatr yw'r cyfrwng cydweithredol gorau un ac un elfen o'r cyfanwaith yw'r cynllun goleuo.

Mae goleuo yn adrodd y stori gyda'r actorion, mae'n offeryn sy'n chwarae'r sgôr gerddorol, mae'n gosod yr olygfa ynghyd â chynllun y set. Gobeithio fod y cynllun goleuo ar gyfer Mwgsi yn cefnogi'r stori drwy'r dewis o liw, siâp a chyfeiriad. Mae llawer o'r stori yn cael ei ddehongli drwy symudiad a llwyfannu. Cynrychiolir unigedd ac undod drwy oleuadau cryf a chyferbyniad ac mae golau a chysgod yr un mor bwysig wrth adrodd y stori.

Mae'r daith emosiynol yn cael ei fynegi drwy liw gyda glas a gwyrdd yn cyfleu pryder, dychryn ac ofn ac oren cynnes yn cyfleu llawenydd a rhyddhad.

Mae'r newidiadau yn y goleuo yn aml yn ysgafn ac ystyriol ac yn symud gyda llwybr a llif emosiynol Mwgsi sy'n cael ei gyfleu mor rymus trwy gydol ei stori.





CYNNWYS

Sgwrs gyda Gwenllian Ellis, un o ffrindiau pennaf Megan. Mae Gwenllian a Megan wedi bod yn ymgynghori gyda Frân Wen ar gynnwys y ddrama Mwgsi.



Ma'r profiad o fod yn ymgynghorwr cynnwys i Mwgsi wedi bod yn hollol newydd i mi.

Pan ddaru Megan ddeud wrtha'i bo'na 'riw lola isho trafod addasu'r blog yn ddrama' do'n i'm wir yn gwbod be odd o'n blaena' ni.

Ro'n i'n helpu Megan hefo'r blog - golygu ac ati - ond do'n i'm yn gwbod os fysa Megan isho mi fod yn rhan o be bynnag oedd ar gweill hefo Frân Wen, heb sôn am os oedd hi isho trafod unrhywbeth ymhellach hefo nhw. Gyda lwc, roedd ganddi ddiddordeb a mi odd o'n ddechra ar brosiect ofnadwy o gyffrous i ni.

Ma' theatr a 'sgwennu yn rhywbeth dw i'n fwynhau ond dw i 'rïoed' di cal cyfla i wneud unrhywbeth fel 'ma o'r blaen, felly roedd cerddad fewn i Frân Wen ar y dwrnod cynta' yn rili nerve wrecking! Ar y dechra' mi oni'n poeni y bysa neb yn deall pan mod i yna a be'n union oedd fy rôl i, ond roedd pawb mor groesawgar ac agored.

Ddaru sdeil Frân Wen o weithio a datblygu rili gweithio i ni - roedd hi'n grêt cal cymysgedd o bobl yn trafod ac yn hel syniadau achos ddaru hynny roi cyfle i ni feddwl am: be oeddann ni isho, be odd am fod yn bosib ac yn bwysicach na dim, be odd Megan yn hapus i gael ar y llwyfan. Roedd Manon a lola mor barod i wrando ar Megan a'i hanes ac yn cîn i neud be odd ora' iddi hi. Roedd bod yn rhan o'r broses cychwynnol yn ddifyr tu hwnt achos dw i 'di cal gweld sud ddaru'r syniad eginol flaguro a datblygu dros y flwyddyn ola'. Mae hi hefyd wedi bod yn braf gallu parhau i fod yn rhan o'r trafodaethau am y sgript a datblygiad y ddrama dros y flwyddyn ola'. 'Da'ni di bod mor lwcus achos ma' Manon mor agored i newidiadau yn y sgript.

Mae Mirain, Catrin a Ceri (hefo lola), wedi mynd â stori Megan i rwla do'n i'm yn meddwl fysa'n bosib a ma hi wedi bod mor ddifyr ei gweld nhw fel actorion yn dehongli'r stori. Difyr hefyd oedd gweld sut mae'r artistiaid eraill i gyd wedi dehongli'r stori a chreu gwisgoedd, soundtrack a delweddau hollol anhygoel.

I mi, ma Mwgsi, erbyn hyn, yn fwy'na drama am gancr; mae hi'n ddrama bwysig ac ofnadwy o gyfoes - pa mor aml welwch chi dair merch ifanc ar lwyfan yng Nghymru? Mae hi'n ddrama am gyfeillgarwch ac yn gneud i bobl ystyried sut maen nhw'n gweld 'i hunain a'r bobl o'u cwmpas. Mae hi'n ffeministaidd ond ddim yn gwthio hynny ar y gynulleidfa; ma hi'n gynnil ond hefyd yn heriol tu hwnt. Gobeithio y gwneith hi gychwyn trafodaethau am y petha anodd mewn bywyd, yn enwedig ymysg pobl ifanc - a dyna oedd y bwriad gen i a Megan wrth i ni gerddad mewn i gyfarfod lola am y tro cynta'na.

Dw i mor ddiolchgar i Manon, lola a phawb yn Frân Wen am barchu stori a dymuniada Megan ac am adael i mi fod yn rhan o'r broses. Ma hi wedi bod yn bleser llwyr ac yn brofiad gwerthfawr tu hwnt gweithio hefo pawb, diolch o galon!

4

CYNLLUNIO



Angaharad Gwyn

Cynllunydd Gwisgoedd a Set Mwgsi

Mae'r set wedi ei dylunio fel gofod amwys gyda phalet clinigol sy'n rhoi pwyslais ar y tafluniau. Mae'r gwaith clyweledol yn trawsnewid y gofod i fod yn gynrychiolaeth weledol o daith meddyliol ac emosiynol Mari. Mae'r ddwy gefnlen yn ein hatgoffa o lenni o amgylch gwely ysbyty, maent wedi eu dinistrio tua'r gwaelod i ddynodi'r frwydr sydd yn mynd ymlaen o fewn corff a meddwl Mari.


Mae elfen haniaethol i'r gwisgoedd sydd wedi eu hysbrydoli gan ddelwedd pelydr x o ffrogiau Balenciaga yn y V&A. Mae'r gymysgedd o ffasiwn ac offer meddygol yn ddeuliaeth a gaiff ei hadlewyrchu yn nhaith Mari fel merch ifanc sy'n cael ei thafu i mewn i'r byd meddygol. Yn cario ymlaen gyda'r thema o beledr x mae gwisg mari pan mae hi yn y feddygfa am y tro cyntaf wedi ei ddylunio i chwarae gyda'r syniad o groen, cnawd a chyhyrau ac yn lluchio y gynulleidfa i mewn i'r byd meddygol mewn ffordd haniaethol sydd yn ddechrau ar daith Mari gyda ei salwch.

Ysbrydoliaeth arall o fewn gwisg Mari yw'r ddelwedd o 'Corsets' a'r syniad o farcio a mesur

y corff. Caiff hyn ei weld yn mhrif wisg Mari sydd wedi ei farcio fel llinellau mesur ar fannequin. Defnyddir hyn i amlinellu'r effaith weledol mae'r afiechyd yn ei gael ar ei chorff, caiff y newid yn ei gwedd ei gyfeirio ato sawl gwaith o fewn y sgript felly roeddwn yn awyddus i hyn gael ei adlewyrchu yn y wisg.

Mae gwisgoedd Greta a Haf fel nad ydynt yn perthyn i'r un byd, tra bod palet Greta yn ddaearol a chynnes mae palet Haf yn oeraidd ac yn monocrom. Mae gwisg Greta hefyd yn fwy soled i gymharu a'r ddwy arall ond yn dal i gynnwys elfenau o'r ybrydoliaeth peledr x.

Roedd fy mhroses o ddylunio yn un organic iawn drwy wyllo yr ymarferion a datblygu fy syniadau am y gwisgoedd wrth i'r cymeriadau a'r byd y cai'r ddrama ei gosod ynddi ddatblygu. Roedd fy moodboard gwreiddiol yn weddol realistic ond wrth i'r broses ddylunio fynd yn ei flaen fe ddatblygodd y gwisgoedd i fod yn fwy haniaethol sydd yn cael ei adlewyrchu yn y moodboard gorffenedig.






TAFLUNIO



Jason Lye-Phillips
Cynllunydd Taflunio Mwgsi



Mae dylunio'r delweddau a'r taflunio ar gyfer Mwgsi wedi bod yn broses heriol a hynod o gyffrous. Dechreuodd y broses wrth i'r tîm artistig drafod sut oeddem am fynd ati i ddangos y deunydd a grëwyd ar y set. Penderfynon ni daflunio ar gefnlefn du oedd yn rhoi effaith blotio i'r cynnwys.

Ddes i fyny i'r wythnos cyntaf o ymarferion ac eisteddais i mewn ar yr ymarferion gan chwarae o gwmpas gyda syniadau, animeiddio a ffilmio darnau byr o berfformiad Mirain Fflur.

Yn dilyn hyn mi fues i'n arbrofi gyda thechnegau gwahanol o animeiddio i weld beth fyddai'n cyd-fynd â naws y sioe. Ar ôl

trafod ac arbrofi gyda chynnwys daeth yn glir mai delweddau mwy organig eu naws oedd yn gweddu. Y bwriad oedd defnyddio'r delweddau i gyfleu emosiynau mewnol Mwgsi gan roi haen ychwanegol i'r hyn oedd yn cael ei ddweud yn llythrennol.

Rwyf hefyd wedi arbrofi gyda thechnegau ffilmio gwahanol gan ddefnyddio deunydd du a gwyn er enghraifft.

Rwyf wedi creu nifer o arwynebau gwahanol o fewn Qlab i gyfleu siapiau gwahanol ac amrywio maint y delweddau. Mae'r delweddau a'r taflunio yn cael eu rheoli gan y technegydd.




FIDEOS



YMARFERION

Cipolwg o ymarferion Mwgsi.



SGWENNU

Manon Steffan Ros: Sgwrs gyda awdur Mwgsi.



TAFLUNIO

Jason Lye-Phillips: Sgwrs gyda chynllunydd taflunio Mwgsi.



GOLEUO

Ceri James: Sgwrs gyda chynllunydd goleuo Mwgsi.



SAIN

Dan Jones: Sgwrs gyda thechnegydd sain y sioe.



GOLEUO

Meilir Aled Evans: Sgwrs gyda techengydd goleuo Mwgsi.

ADOLYGU



Branwen Davies

Darlithydd mewn Theatr a
Pherfformio / dramodydd a chrëwr
theatr llawrydd

YSGRIFENNU ADOLYGIAD THEATR

Does yna ddim rheolau i ysgrifennu adolygiad theatr. Mynegi eich barn bersonol chi a'ch teimladau chi am gynhyrchiad ydych chi. Does yna ddim ffordd gywir nac anghywir o fynd ati. Yr hyn sy'n bwysig ydy i chi ddod o hyd i lais unigryw eich hun ac i fod yn onest am beth wnaethoch chi ei fwynhau neu ddim ei fwynhau am y cynhyrchiad. Darllenwch adolygiadau ac ewch i weld nifer o gynyrchiadau a thrafodwch hefo'ch ffrindiau a'ch teulu i ddod o hyd i iaith a ffordd unigryw eich hun i drafod theatr. Cofiwch fod yn greadigol wrth ei ysgrifennu ac i gael hwyl yn ei ysgrifennu. Does gan neb ddiddordeb darllen adolygiad sych a diflas!

Y peth pwysicaf o bosib i'w gofio ydy mai trafod profiad theatrig byw ydych chi.
Wrth ysgrifennu adolygiad mae angen rhoi blas o'r cynhyrchiad a chreu darlun byw ohoni.

Efallai nad oes yna reolau ond mae yna ganllawiau a all fod o gymorth wrth fynd ati i ysgrifennu.

Yn draddodiadol mae adolygiad yn dechrau drwy osod cefndir. Yna ceir syniad o stori a thema yn ogystal â nodweddion gweledol neu glywedol e.e. y set, gwisgoedd, sain a cherddoriaeth. Ceir gwerthusiad o'r ysgrifennu, y cynhyrchiad a'r perfformiadau ac yna casgliad o'r cyfan i gloi.

Dyma gamau i'w hystyried wrth fynd at i ysgrifennu.

Cyn gweld y ddrama

Mae modd gwneud dipyn o waith ymchwil o flaen llaw i gael dipyn o gefndir y cynhyrchiad a'r cwmni. Beth fedrwyd chi ei ddysgu am y cynhyrchiad o safle we Frân Wen a thudalennau Facebook a Twitter y cwmni? Pa fath o waith mae Frân Wen yn ei gynhyrchu ac wedi ei greu yn y gorffennol? Pwy ydy'r tîm creadigol - cyfarwyddwr, actorion, cynllunydd, cyfansoddwyr ac ati?

Beth mae'r cwmni am i chi wybod am y ddrama cyn i chi ei gweld? Pa effaith mae'r poster i'r marchnata yn ei gael arnoch chi?

Yn ystod y ddrama

Ysgrifennwch nodiadau ond peidiwch â chud-dio yn eich llyfr nodiadau rhag ofn i chi golli unrhyw beth! Beth sydd yn eich taro chi? Beth sydd yn cael effaith arnoch chi? Oes yna linell neu frawddeg drawiadol yr hoffech chi dynnu sylw ati? Ydy perfformiad yr actorion yn drawiadol? Sut mae'r gerddoriaeth yn cael effaith arnoch chi? Beth am liwiau'r goleuo neu'r gwisgoedd?



Wedi'r ddrama

Ysgrifennwch ddrafft cyntaf o'r adolygiad cyn gynted ag y medrwch chi rhag ofn i chi anghofio elfennau o'r profiad. Weithiau mae angen meddwl mwy am ddrama ac mae'n cymryd amser i ddadansoddi barn a theimlad am gynhyrchiad ond mae modd ychwanegu mwy wedi cael cyfle i feddwl.

O ran strwythur yr adolygiad dyma bethau i'w hystyried.

Cefndir

Beth ydy cefndir y ddrama? Yn achos Mwgsi mae'r ddrama yn seiliedig ar stori wir a blog a gafodd ei addasu i greu drama lwyfan. Mae modd i chi osod nawws hefyd yn y fan hyn. Sut ydych chi'n teimlo cyn i'r ddrama ddechrau? Beth ydych disgwyliaidau? Yn lle ydych chi'n gwyllo'r ddrama? Sut awyrgylch sydd yno?

Gweithred

Sut mae'r ddrama yn cael ei dehongli? Beth sydd yn unigryw am y dehongliad? Beth yw arddull y ddrama? Sut mae holl elfennau'r cynhyrchiad (cerddoriaeth, gwisg, cyfarwyddo, technoleg, actio, symud, testun) yn cydweithio i greu cyfanwaith?

Elfennau arbennig

Beth oedd yn unigryw am y cynhyrchiad? Sut effaith oedd hyn yn ei gael ar y ddrama, arnoch chi ac ar y gynulleidfa?

Barn

Oedd y cynhyrchiad yn llwyddiannus? Pam? Pam ddim? Oedd yna elfennau gwan nad oedd yn taro deuddeg yn eich tyb chi? Beth oedd yn sefyll allan? Beth oedd yn arbennig e.e. yr actio, testun, cerddoriaeth? Oedd y ffordd cafodd y ddrama ei chyflwyno yn gweddu'r ddrama? Pam? Cofiwch roi rheswm ac i fanylu.

Argymell

Fyddech chi'n argymell i rywun fynd i weld y ddrama? Pam? Pam ddim?

Cloi

Sut brofiad oedd gweld y cynhyrchiad? Ydych chi'n teimlo'n wahanol ar y diwedd i sut oedda chi ar y dechrau? Beth gafodd effaith arnoch chi a beth fyddwch chi'n ei gofio am y cynhyrchiad? Gellir clymu diwedd yr adolygiad hefo'r dechrau.

EWCH ATI I ADOLYGU!

Mae Frân Wen wastad yn chwilio am bob cyfle posib i gasglu barn am eu cynrychiadau. Ewch amdani ac anfonwch eich adolygiad ymlaen atom i sylw carl@franwen.com.

PECYN DYSGWYR

PECYN DYSGWYR

Drama greulon o onest, llawn hiwmor tywyll am yr enwogrwydd a'r unigrwydd o fod yn berson ifanc sy'n byw gyda chancr.

A cruel, honest drama, full of dark humour portraying the fame and loneliness that becomes everyday life for a young person living with cancer.

[**creulon** - cruel]

[**enwogrwydd** - fame]

CEFNDIR BACKGROUND

This drama is inspired by Megan Davies's blog chronicling her experiences battling cancer as an eighteen-year-old.

Megan survived the treatment and is now living cancer free and studying for her nursing degree in Cardiff.

Her story inspired so many people, that Iola Ynyr (Frân Wen's Artistic Director) and Manon Steffan Ros (Author) joined forces with Megan to create this play - Mwgsi.

If you would like to read Megan's blog -
www.mwgsi.com

This drama focuses on the story between three best friends dealing with the traumatic, life-changing experience of going through cancer treatment.

GOLYGFYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 1 (SCENE 1)

Mari, Greta and Haf are out celebrating the end of their A Level Exams.

Greta is still worried that the Welsh exam hasn't gone as well as she'd hoped, but Mari tries to calm her down by reminding her that this time next week they will be enjoying themselves in Greece, drinking cocktails; and tonight, there is always shots!

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
		'sgidia ma'n lladd	These shoes are killing
		a doedd gin i ddim	and I didn't have
cynghaneddion	A form of Welsh language strict meter poetry using the concept of sound-arrangement within one line, using emphasis, alliteration and rhyme.		
		cario	to carry
chwydu	to be sick/ vomit		
		han'di dau	half past two

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 2 (SCENE 2)

At the hospital, Mari is having an X-ray: she's recently been extremely tired and feeling nauseous. She is feeling worse for wear after a night on the town celebrating the end of her A Levels.

Her friends tease her saying that she smells of alcohol and that she still might be a bit tipsy!

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
arogl	smell	'ogla	smell
		Dw i'n hongian	I'm drunk
		'Sa fo di gesho	He would have guessed
		fatha bod'na gi di cachu lond o	as if a dog had shit all over it

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 3 (SCENE 3)

The three friends are preparing for their holiday in Greece. They are looking at the clothes they are going to wear. Greta is surprised to see that Mari's extreme weight loss.

Mari says that she hasn't been dieting. Greta is obviously uncomfortable with this information, especially because of Mari's X-Ray earlier that morning.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
		Os ffindi di	If you find
		Dio'n goman?	Is it common?
Groeg	Greece		
y groth	the womb		
Faint o bwysa'ti'di golli?	How much weight have you lost?		
		chŵd	vomit
drych	mirror		
anhygoel	amazing		
		wastad	always
		ôn i'n disgwyl	was I pregnant
		siwr Dduw	An exclamation, meaning of course

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 4 (SCENE 4)

Mari goes to the hospital for her X-Ray results.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
		yn fyr iawn'y ngwynt	I'm very short of breath
		Dio'n goman?	Is it common?

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 5 (SCENE 5)

Mari has just broken the news to Greta about her X-Ray result. She's upset. Greta must call Mari's mother to come and fetch Mari, she must also tell Mari's mother the terrible news.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
		dwad	to come
		acw	there
		Wchi	You know (formal)
gwaethaf	worst		
deunaw oed	eighteen years' old		
tu hwnt i'nghyraedd i	beyond my reach		

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 6 (SCENE 6)

Mari is unable to go on the long-awaited holiday to Greece. She bids farewell to Greta, obviously gutted that she's going to miss out on all the fun.

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 7 (SCENE 7)

Mari is in the hospital for IVF treatment before starting chemotherapy. With her is Haf for support.

They discuss how ironic it is that prior to the cancer diagnosis the doctor had asked her if she was pregnant: both instances means you have something growing inside you.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
		Gaddo	to promise
traeth	beach		
'di meddwi	drunk		
		Mi gostith	it will cost
uffernol	awful/terrible/ hellish		
trafferth	hassle		
os	if		
pan	when		
gwenwyno	poisoned		
clên	nice (to describe a person)		
		'Sbyty Gwynedd	The name of a hospital in north Wales, meaning Gwynedd Hospital
		Jolpan wirion	Daft cow
		Genod	Girls

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 8 (SCENE 8)

Greta is keeping Mari company, but inappropriately going on about how sick she feels because she's hungover.

Mari tries to ask her about the holiday to Greece, but Greta can't say much because they didn't have the best time.

After a few drinks, every night someone ended up crying, worried about Mari. It also didn't feel right to be enjoying themselves while Mari was suffering.

Mari doesn't want her friends to feel depressed and worried about her.

She says that she has enough on her plate as it is, let alone worry about them too.

Greta tries to persuade Mari to talk about her feelings and what she's going through.

[continued next page]

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 8 (SCENE 8)

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
disgrifiad	description		
		chwydfa	being sick
c(g)lais	bruise		
boch fy nhin	bum cheek		
brifo	hurt		
crio	cry		
		o ddifri rwan	seriously now
		wrth'y modd	I would have loved to
ofn	scared		
gwin pinc	rosé wine		
yn lledaenu	spreading		
grawnffrwyth	grapefruit		
sur	sour		
clymu	to tie		

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 9 (SCENE 9)

The chemotherapy has kicked in leaving Mari feeling very poorly.

Greta tries to comfort her, but she keeps on saying the wrong thing.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
gwaethaf	worst		
hawdd	easy		
dewr	brave		
		paid â nhrin i fatha babi	Don't treat me like a baby
eisiau llonydd	want to be left alone/ peace and quiet		
profion	tests		
marw	to die		

GOLYGFEYDD

SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 10 (SCENE 10)

Mari and the girls have gone out. Mari finds it strange that she's being treated like a celebrity since being diagnosed with cancer.

People buy her drinks, as if she had something to celebrate.

Mari and Greta are discussing the way that the cancer has affected them. Mari says that it will always be a lingering concern in the back of her head, even if she does get better.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
llyfu	to lick		
rhad	cheap		
		Ward Alaw	The cancer ward in the local hospital
ffrwythau	fruits		
haws	easier		
stumogi	to stomach		
meddwi	drunk		
byth	never		
		sbwyllo	to spoil

GOLYGFEYDD SCENE SYNOPSIS

GOLYGFA 11 (SCENE 11)

Mari is beating the cancer.

Her mother's voice says that while some people do win the battle, ultimately it's an ongoing one as so many people lose the battle with cancer daily.

Welsh Vocab	English Vocab	North Wales Saying	English equivalent
ennill	winning		
cig a gwaed	meat and flesh		
caru chdi	love you		

Datblygwyd y pecyn hwn gan Lowri Mair Jones gyda chefnogaeth Frân Wen.

This pack was created by Lowri Mair Jones with the support of Frân Wen.

If you require further information about the production then please visit our fully bilingual website **www.franwen.com**.

CRIW CREADIGOL MWGSI

Actorion / Actors
Troslais / Voiceover
Sgript / Script
Cyfarwyddwr / Director
Ymgynghorwyr Cynnwys / Content Consultants
Cynllunydd Set a Gwisgoedd / Set and Costume Design
Cynllunydd Goleuo / Lighting Designer
Cyfansoddwyr / Composers
Cynllunydd Taflunio / Projection Designer
Rheolwr Llwyfan / Stage Manager
Technegydd Sain / Sound Technician
Technegydd Goleuo / Lighting Technician

Ceri Elen, Catrin Mara a Mirain Fflur
Morfudd Hughes
Manon Steffan Ros
Iola Ynyr
Megan Davies a Gwenllian Ellis
Angharad Gwyn
Ceri James
Rhodri Williams a Ifan Sion Davies
Jason Lye-Phillips
Lewis Williams
Dan Jones
Meilir Aled Evans



post@franwen.com



01248 715 048



www.franwen.com



@cwmnifranwen



Porthaethwy,
Ynys Môn,
Cymru
LL59 5HS



FRÂN WEN

